Senedd Cymru

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

# Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) Llywodraeth Cymru ar y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig

Ebrill 2024

# 1. Y cefndir

## Bil Cerbydau Awtomeiddiedig Llywodraeth y DU

**1.** Cyflwynwyd y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig[1] (y Bil) yn Nhŷ'r Arglwyddi a chafodd ei ddarlleniad cyntaf ar 8 Tachwedd 2023. Noddir y Bil gan yr Adran Drafnidiaeth.

**2.** Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil yn rhoi'r trosolwg a ganlyn:

> *"The Automated Vehicles Bill implements the recommendations of the 4-year review of regulation for automated vehicles carried out jointly by the Law Commission of England and Wales and the Scottish Law Commission (the Law Commissions). It is intended to set the legal framework for the safe deployment of self-driving vehicles in Great Britain."*[2]

**3.** Mae enw hir y Bil yn nodi pwrpas y Bil fel a ganlyn:

> *"Regulate the use of automated vehicles on roads and in other public places; and to make other provision in relation to vehicle automation."*

**4.** Cwblhaodd y Bil ei hynt drwy Dŷ'r Arglwyddi ar 19 Chwefror 2024, a chafodd ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin ar 20 Chwefror 2024. Cynhaliwyd yr ail ddarlleniad ar 5 Mawrth 2024, a daeth y Cyfnod Pwyllgor i ben ar 19 Mawrth 2024. Pan gytunwyd ar ein hadroddiad, roedd disgwyl i'r Cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin ddechrau ar 1 Mai 2024.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru

**5.** Yn unol â Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2, mae'n ofynnol gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol gan Lywodraeth y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru at unrhyw ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd neu sy'n addasu ei chymhwysedd deddfwriaethol.

---

[1] Y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig, fel y'i cyflwynwyd (Bil 1) [Saesneg yn unig]
[2] Y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig, Nodiadau Esboniadol, Tachwedd 2023 [Saesneg yn unig]

**6.** Ar 24 Tachwedd 2023, gosododd Julie James AS, y Gweinidog Newid Hinsawdd (y Gweinidog) ar y pryd, Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) gerbron y Senedd mewn perthynas â'r Bil.[3]

**7.** Gwnaethom gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm (ein hadroddiad cyntaf) ar 22 Chwefror 2024.[4]

**8.** Roedd paragraffau 8 i 10 o'n hadroddiad cyntaf yn nodi'r darpariaethau yn y Bil yr oedd Llywodraeth Cymru, ar y pryd, yn ystyried bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, ac yn nodi lle'r oedd anghytundeb rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

**9.** Roedd paragraffau 11 i 14 o'n hadroddiad cyntaf yn nodi'r pwerau dirprwyedig yn y Bil sy'n cael eu rhoi i Weinidogion Cymru ac i'r Ysgrifennydd Gwladol.

**10.** Roedd paragraffau 15 ac 16 o'n hadroddiad cyntaf yn nodi safbwynt Llywodraeth Cymru ar y Bil, fel y'i nodir yn y Memorandwm.

**11.** Roedd ein hadroddiad cyntaf yn cynnwys dau gasgliad a dau argymhelliad.

**12.** Ymatebodd Lee Waters AS, y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd (y Dirprwy Weinidog) ar y pryd, i'n hadroddiad cyntaf ar 6 Mawrth 2024.[5]

**13.** Ar 13 Chwefror 2024, gosododd y Dirprwy Weinidog Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2).[6]

**14.** Gwnaethom adrodd ar Femorandwm Rhif 2 ar 15 Mawrth 2024 (ein hail adroddiad).[7]

**15.** Mae paragraffau 16 i 22 o'n hail adroddiad yn nodi'r sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm, a darpariaethau yr oedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, fel y nodir ym Memorandwm Rhif 2.

[3] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig, Tachwedd 2023
[4] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig, Chwefror 2024
[5] Llythyr oddi wrth y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, 6 Mawrth 2024
[6] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig, Chwefror 2024
[7] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) Llywodraeth Cymru ar y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig, Mawrth 2024

**16.** Mae paragraffau 23 i 26 o'n hail adroddiad yn nodi'r sefyllfa ddiweddaraf ar y pwerau dirprwyedig yn y Bil (sy'n cael eu rhoi i Weinidogion Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol).

**17.** Roedd ein hail adroddiad yn cynnwys un casgliad.

## Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) Llywodraeth Cymru

**18.** Ar 13 Mawrth 2024, cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau i'r Bil i'w hystyried yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin.

**19.** Ar 5 Ebrill 2024, gosododd Ken Skates AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth (Ysgrifennydd y Cabinet) Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol pellach (Memorandwm Rhif 3).[8]

**20.** Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith gyflwyno adroddiad ar Femorandwm Rhif 3 erbyn 22 Ebrill 2024.[9]

### Y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm, a darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

**21.** Mae cymalau rhif ym Memorandwm Rhif 3 yn cyfeirio at y Bil fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi.[10]

**22.** Yn ôl asesiad Llywodraeth Cymru, mae angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y diwygiadau a ganlyn a wnaed i'r Bil, fel y nodir ym mharagraff 13 o Femorandwm Rhif 3:

- diwygiad i gymal 40 sy'n ychwanegu "Gweinidogion Cymru at y rhestr o awdurdodau yng Nghymal 40(3) y Bil, gan ddod â Gweinidogion Cymru yn rhinwedd eu galluoedd fel awdurdod priffyrdd ac awdurdod traffig, o fewn cwmpas y pŵer yng Nghymal 40." (credwn mai gwelliant Gov 1 yw hwn),[11] a

[8] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig, Ebrill 2024
[9] Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 3) ar y Bil Cerbydau Awtomeiddiedig, Ebrill 2024
[10] Mesur Cerbydau Awtomeiddiedig, fel y'i dygwyd o Dŷ'r Arglwyddi (Bil 167)
[11] Bil Cerbydau Awtomeiddiedig, Hysbysiad o Ddiwygiadau ar 13 Mawrth 2024 [Saesneg yn unig]

- diwygiadau i gymal 93, sy’n rhoi i Weinidogion Cymru y pŵer cyfatebol i wneud rheoliadau mewn perthynas â Chymru fel y’i rhoddir i’r Ysgrifennydd Gwladol i wneud darpariaeth sy’n ei gwneud yn ofynnol i awdurdod rheoleiddio traffig ddarparu gwybodaeth ragnodedig am fesur rheoleiddio traffig perthnasol yn Lloegr (credwn rhain i fod yn welliannau Gov 2 i 5).[12]

**23.** O ran cymal 40, yn y Memorandwm[13] a Memorandwm Rhif 2[14] fel ei gilydd, dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod o’r farn bod hepgor Gweinidogion Cymru o gymal 40 yn gamgymeriad.

**24.** Yn yr un modd, mewn perthynas â chymal 93, unwaith eto yn y Memorandwm[15] a Memorandwm Rhif 2[16] fel ei gilydd, amlygodd Llywodraeth Cymru ei bod yn archwilio’r posibilrwydd o wneud gwelliannau i’r Bil.

**25.** Ym mharagraff 13 o Femorandwm Rhif 3, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn cadarnhau bod Llywodraeth y DU wedi cytuno i gais Llywodraeth Cymru i gyflwyno gwelliannau i roi’r pŵer cyfatebol i Weinidogion Cymru mewn perthynas â Chymru. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn nodi fel a ganlyn:

> “*Bwriad cymal 93 yw hwyluso argaeledd yr wybodaeth ddigidol y gallai cerbydau awtomeiddiedig ei defnyddio, neu, yn wir, gerbydau eraill sydd â swyddogaethau cymorth gyrwyr electronig, i gydymffurfio â'r rheolau a nodir mewn deddfwriaeth fel Gorchmynion Rheoleiddio Traffig. O ystyried y cysylltiadau rhwng systemau trafnidiaeth Cymru a Lloegr, credwn y byddai'n fanteisiol i wybodaeth o'r fath fod ar gael ar yr un pryd, a byddai pwerau yn y gwelliannau i Weinidogion Cymru yn ein galluogi i weithio'n effeithiol gyda Llywodraeth y DU yn hyn o beth.*”

**26.** Ym mharagraff 15 o Femorandwm Rhif 3, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn dweud bod safbwynt Llywodraeth y DU ar yr angen am gydsyniad “yn cyd-fynd â safbwynt Llywodraeth Cymru”.

[12] Bil Cerbydau Awtomeiddiedig, Hysbysiad o Welliannau ar 13 Mawrth 2024
[13] Memorandwm, paragraff 10
[14] Memorandwm Rhif 2, paragraff 22
[15] Y Memorandwm, paragraff 21
[16] Memorandwm Rhif 2, paragraff 17

**27.** Ym mharagraff 18 o Femorandwm Rhif 3, mae Ysgrifennydd y Cabinet hefyd yn cadarnhau ei fod o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau a gwmpesir gan Femorandwm Rhif 3 yn y Bil.

### Pwerau dirprwyedig

**28.** Ym Memorandwm Rhif 3, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn tynnu sylw at y ffaith bod y gwelliannau i gymal 93 yn rhoi pŵer dirprwyedig ychwanegol i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau. Ym mharagraff 14, mae Ysgrifennydd y Cabinet yn ychwanegu fel a ganlyn:

> *"Mae cymal 97 yn darparu, cyn gwneud rheoliadau, fod rhaid i'r person sy'n eu gwneud ymgynghori â'r sefydliadau cynrychioliadol fel y gwêl y person hwnnw'n dda. Mae rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru i'w gwneud drwy offeryn statudol. Cânt wneud: darpariaeth ganlyniadol, darpariaeth atodol, darpariaeth ddeilliannol, darpariaeth drosiannol neu ddarpariaeth arbed; darpariaeth wahanol at ddibenion neu feysydd gwahanol; a darpariaeth sy'n caniatáu arfer disgresiwn. Maent yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol."*

# 2. Ystyriaeth y Pwyllgor

**29.** Gwnaethom drafod Memorandwm Rhif 3 yn ein cyfarfod ar 15 Ebrill 2024[17] a chytuno ar ein hadroddiad ar 22 Ebrill 2024.[18]

## Ein barn ni

### Darpariaethau y mae angen cydsyniad deddfwriaethol ar eu cyfer

**30.** Nodwn asesiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, fel y nodir ym Memorandwm Rhif 3.

**31.** Cytunwn ag asesiad Llywodraeth Cymru fod y diwygiadau i gymalau 40 a 93, fel y'u nodir ym Memorandwm Rhif 3, yn dod o fewn diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y disgrifir yn Rheol Sefydlog 29.

[17] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 15 Ebrill 2024
[18] Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 22 Ebrill 2024

**32.** Rydym yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi mynd ati'n rhagweithiol i geisio newidiadau i gymalau 40 a 93 ers cyflwyno'r Bil, ac mae'r ddau gymal wedi'u hamlygu yn y Memorandwm, ac ym Memorandwm Rhif 2. Er bod gennym, fel Pwyllgor, bryderon hirsefydlog ynghylch y diffyg democrataidd sy'n dod i'r amlwg o ganlyniad i Filiau yn Senedd y DU yn gwneud darpariaeth ar gyfer Cymru mewn meysydd datganoledig, croesewir y gwaith rhynglywodraethol adeiladol ar y materion penodol hyn.

**33.** Gwnaethom ddweud yn ein hail adroddiad y byddai wedi bod o gymorth i'n gwaith craffu pe bai'r Dirprwy Weinidog ar y pryd wedi'i gwneud yn glir pan fyddai Llywodraeth y DU wedi cyflwyno'r gwelliannau a oedd yn destun Memorandwm Rhif 2. At hynny, gwnaethom ddweud y byddai wedi bod yn ddefnyddiol inni pe bai'r Dirprwy Weinidog, ym Memorandwm Rhif 2, wedi pennu rhifau'r diwygiadau ffurfiol sydd ynghlwm wrth y gwelliannau i gymalau 88(5) a chymal 97. Mae'n siomedig, unwaith eto, fod gwybodaeth o'r fath wedi'i hepgor o Femorandwm Rhif 3.

**Casgliad 1.** Rydym o'r farn bod y diwygiadau i'r Bil fel y'u nodir ym Memorandwm Rhif 3 yn dod o fewn diben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, fel y disgrifir yn Rheol Sefydlog 29, ac felly bod angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer.

**34.** Ym Memorandwm Rhif 2, tynnodd Llywodraeth Cymru sylw at wallau teipio a gynhwyswyd mewn gwelliant a gynigiwyd gan Lywodraeth y DU i gymal 97 o'r Bil. Derbyniwyd y gwelliant, a nodwn fod y gwallau yn parhau yn y Bil fel y'i diwygiwyd yng Nghyfnod Pwyllgor Bil Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin.

**Argymhelliad 1.** Byddem yn croesawu eglurhad gan Ysgrifennydd y Cabinet ar unrhyw drafodaethau pellach y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU ynghylch y gwallau teipio a gyflwynwyd yng nghymal 97 o'r Bil yn ystod Cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin, ac a yw Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o sut a phryd y bydd gwallau'n cael eu cywiro.

## Pwerau dirprwyedig

**35.** Rydym yn nodi bod y gwelliannau a wnaed i gymal 93 o'r Bil – sy'n destun Memorandwm Rhif 3 – yn rhoi pŵer gwneud rheoliadau ychwanegol i Weinidogion Cymru. Nodwn ymhellach y byddai rheoliadau o'r fath yn ddarostyngedig i'r weithdrefn graffu negyddol yn y Senedd.